| | |
|---|---|
| | wythnos o hyfforddiant): 6 ysgol, 253 o ddisgyblion.<br><br>- **The Big Pedal** (y mae CNPT yn cefnogi Sustrans): 13 ysgol, 1,709 o deithiau teithio llesol.<br><br>- **Cwis Blynyddol:** Mae Diogelwch Ffyrdd yn cynnal cwis blynyddol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6, sy'n cael ei gynnig i bob ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot: 30 o ysgolion, 150 o ddisgyblion.<br><br>*[Sylwer: mae ffigurau ysgolion yn seiliedig ar y flwyddyn academaidd Medi 2018 - Gorffennaf 2019].* |
| Y camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig | Gwaith a gwblhawyd ar Gamlas Castell-nedd (NCN 47) rhwng safle Crown Food, Castell-nedd a Giants Grave, Llansawel. Mae gwaith wedi cynnwys gwella arwyddion a marciau ffordd, tarmacio, torri llystyfiant a symud rhwystrau.<br><br>Gwelliannau draenio ac arwyddion ar Ffordd Fabian a Ffordd Amazon.<br><br>Cynhaliwyd gweithgareddau dichonoldeb cyn y gwaith ar gyfanswm o 18 llwybr MRhI. Roedd gweithgareddau cyn y gwaith yn cynnwys:<br><br>• Gwiriadau perchnogaeth tir;<br>• Dechrau trafod gyda pherchnogion tir (lle bo angen) gan gynnwys cyhoeddi gohebiaeth a chyfarfodydd;<br>• Gwiriadau priffyrdd wedi'u mabwysiadu (lle bo angen);<br>• Gwiriadau rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus;<br>• Arolygon bioamrywiaeth/ecolegol; a<br>• Gwaith dylunio.<br><br>Ystyriwyd ffactorau megis topograffi, dichonoldeb, buddion i'r gymuned leol a'r potensial ar gyfer y llwybr newydd i fodloni 'Safonau Dylunio Teithio Llesol' wrth benderfynu pa lwybrau y dylid eu cymryd i'r cam dylunio. Cynlluniwyd 11 llwybr o ganlyniad i'r gwaith hwn. |
| Costau a gafwyd ar gyfer llwybrau teithio llesol a | Dyfarnwyd £540k,000 i'r cyngor o'r Gronfa Teithio Llesol a £235,000 gan y Gronfa Trafnidiaeth Leol. |

